Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pwllheli
**Ysgol Cymerau**
**Ffordd y Mela**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 5AR**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Pwllheli

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pwllheli |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sophie Underwood-Jones |
| Person â gofal | Kimberly Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2½ - 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 13 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09.00 – 15.00, Dydd Llun – Dydd Gwener, tymor ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 17/11/2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/02/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cofrestriad newydd Arolygiaeth Gofal Cymru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol ers Medi 2019

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Gwnaethom hysbysu'r darparwyr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 28, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn.  Rhaid sicrhau bod ffeiliau pob ymarferydd yn cynnwys y gwiriadau sydd eu hangen.

Ni welwyd bod hyn yn amharu ar ofal a lles y plant gan nad oedd yn cael ei gadael ar ei phen ei hun gyda'r un plentyn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu medrau TGCh a dysgu am ddiwylliannau eraill

A2 Rhannu cyfrifoldebau'n fwy cytbwys ymhlith yr ymarferwyr a'r person â gofal

A3 Mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr adroddiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus a brwdfrydig ar ôl ffarwelio â'u rhieni. Maent yn deall y drefn ddyddiol yn llwyr gan fod bron pob un yn cofrestru eu hunain ar ddechrau'r sesiwn. Mae mwyafrif y plant yn teimlo'n ddigon hyderus wrth ddangos eu hoff degan ac yn gwenu o glust i glust wrth iddynt ofyn am 'pump uchel' cyn iddynt fynd adref. Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais tuag at eu cyfoedion ac ymarferwyr. Maent yn deall y rheolau ymddygiad yn dda ac yn barod iawn i ddisgwyl i'r amserydd wy orffen cyn iddynt gael cymryd rhan mewn gweithgaredd penodol. Mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i geisiadau'r ymarferwyr i dacluso neu ddod i eistedd wrth ymyl y bwrdd.

Mae mwyafrif y plant yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i fynegi eu hunain ac yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei pharchu a'i gweithredu arni gan ymarferwyr yn ystyrlon. Er enghraifft, mae plant sydd wedi blino yn fodlon iawn i gael eu cysuro gan ymarferwyr ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud penderfyniadau yn bwrpasol ac yn llwyddo dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. O ganlyniad, mae agweddau cadarnhaol y plant tuag at chwarae yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymddiddori'n fawr yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n eu cadw'n brysur a'u hysgogi. Mae'r mwyafrif yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael llawer o hwyl a budd wrth ddatblygu eu medrau creadigol wrth ddefnyddio a chymysgu paent i wneud llun. Maent yn gwneud lluniau a siapiau gyda sialciau lliw ac yn sychu'r lluniau gyda brwsys a dŵr cyn dechrau arlunio eto yn hollol annibynnol. Mae llawer o blant yn fentrus yn eu chwarae wrth benderfynu defnyddio darn o bren wedi'i ailgylchu i wneud ramp hir er mwyn i'w ceir symud yn gyflym, gan edrych yn ofnadwy o falch wrth iddynt lwyddo i gwblhau'r dasg yn llwyddiannus.

Mae bron pob plentyn yn dysgu sut i gadw'n iach yn gyson drwy dreulio amser yn yr ardal allanol, bwyta byrbrydau iach a thrwy olchi a sychu eu dwylo . Mae mwyafrif y plant yn dysgu sut i ddefnyddio offer yn effeithiol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn chwarae'n ddeallus yn y gornel cartref ac yn mwynhau defnyddio gwahanol offer i goginio crempogau yn y gegin. Mae llawer o blant yn datblygu eu dychymyg yn dda ac yn mwynhau gwisgo het a menig adeiladwr cyn mynd ati i adeiladu tŷ allan o frics.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae rhan fwyaf y plant, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a datblygiad corfforol.

Mae llawer o blant yn gwrando'n dda ar oedolion a'i gilydd ac yn rhannu eu teimladau'n llwyddiannus drwy ystumiau neu iaith. Mae dealltwriaeth yr ychydig o blant y mae'r Gymraeg yn hollol newydd iddynt yn datblygu'n dda ac mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol i gwestiynau'r ymarferwyr. Mae'r gweddill sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn defnyddio ystod o eirfa yn effeithiol yn naturiol wrth drafod gyda'i gilydd ac ymateb i gwestiynau gan oedolion. Mae llawer o blant yn mwynhau gwrando ar straeon ac mae mwyafrif yn barod i edrych ar lyfrau a throi tudalennau'n annibynnol. Mae llawer yn ymateb yn bwrpasol wrth ailadrodd stori a rhannu teimladau 'Mr Blaidd' wrth geisio gwneud crempog. Mae rhan fwyaf y plant yn dewis gweithgareddau gwneud marciau yn annibynnol fel rhan o'u chwarae y tu fewn a thu allan ac mae llawer yn adnabod eu henwau wrth hunangofrestru. Maent yn cael llawer o hwyl wrth ddefnyddio darnau sialc mawr y tu allan a glanhau ar eu hôl gan ddefnyddio chwistrellwr dŵr. O ganlyniad, mae llawer yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn gadarn.

Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth gadarn o rifau ac maent yn cyfrif gwrthrychau i 10 yn hyderus. Wrth gyfri faint sydd angen bwyta crempog, mae lleiafrif yn adrodd rhifau hyd at 16 yn dda. Mae llawer yn adnabod patrymau ac yn dilyn patrwm syml yn llwyddiannus, yn enwedig wrth adeiladu tŵr dau liw a rhoi mwclis ar linyn. Gallant enwi siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd wrth enwi darnau o bapur maent wedi eu torri gan ddefnyddio siswrn. Mae llawer yn defnyddio iaith fathemategol gywir mewn cyd-destunau perthnasol wrth lenwi a gwagio bwcedi yn y twb tywod gan nodi llawn neu hanner llawn wrth chwarae. Mae cysyniad llawer o blant o amser yn datblygu'n fuddiol iawn trwy sylwi ar y tywod yn gwagio yn yr amserydd tywod wrth ddisgwyl eu tro i wneud gweithgaredd poblogaidd yn yr ardal allanol.

Ar y cyfan, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r plant yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn defnyddio peiriant canfod metel yn annibynnol gan ddyfalbarhau am amser estynedig wrth wneud hyn mewn gwahanol ardaloedd y tu allan. Mae mwyafrif o blant yn datblygu dealltwriaeth briodol o sut i ddefnyddio apiau pwrpasol ar lechen gyfrifiadurol i wneud llun. Mae medrau datrys problemau llawer yn datblygu'n llwyddiannus. Enghreifftiau pwrpasol o hyn yw trwy ddatrys sut i gael olwyn i symud yn gyflym gan ddefnyddio dŵr.

Mae bron pob plentyn yn hyderus ac yn wirioneddol fwynhau wrth arbrofi a chwarae gydag offerynnau taro wrth ganu caneuon cyfarwydd neu yn y gornel gerdd y tu allan. Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda iawn trwy ystod o weithgareddau diddorol y tu fewn a thu allan. Mae medrau echddygol manwl yn datblygu'n dda gyda'r rhan fwyaf o blant yn mowldio, gwasgu ac ymestyn toes ac wrth ddefnyddio offer bach yn annibynnol i wneud 'crempogau'. Maent yn defnyddio offer mawr yn fedrus i ddatblygu eu medrau mentrus, er enghraifft wrth farchogaeth ar feiciau cydbwyso gan eu rheoli'n ofalus neu ddringo dros y ffrâm antur.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol. Er enghraifft, mae systemau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allweddol i gefnogi'r plant hyn. Mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a'r gweithgareddau.

Drwy hyn, mae bechgyn yn chwarae'n  gyfforddus yn y gegin fwd a'r merched yn yr ardal adeiladu yn eu hetiau caled.  Mae'r holl ymarferwyr yn frwdfrydig yn eu rolau ac yn llwyr ymroddedig i sicrhau bod y plant yn ffynnu drwy gael dewis eang o weithgareddau ysgogol a hwylus er mwyn hybu eu chwarae a'u dysgu.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cael hwyl wrth annog y plant i ganu a meimio, gyda'r plant yn cael eu cyffroi wrth gael dewis offeryn cerdd i'w chwarae gyda'r caneuon.

Mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn gyson.  Maent yn dathlu cyflawniadau'r plant ar bob cyfle sy'n helpu'r plant i deimlo'n dda am eu hunain ac yn hybu eu hunanhyder yn rymus.  Mae'r holl ymarferwyr yn trin y plant mewn modd cynhaliol a chynnes, sy'n creu amgylchedd hapus dros ben lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae'r holl ymarferwyr yn dilyn polisïau'n fedrus wrth reoli rhyngweithio cadarnhaol, gan siarad â'r plant â pharch ac mewn iaith mae'r plant yn ei deall.

Mae ymarferwr yn llwyddo i ddilyn polisïau'r lleoliad er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.  Mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn llwyddiannus.  Er enghraifft, maent yn hybu plant i frwsio dannedd, yn rhoi dewisiadau o ffrwyth i'w fwyta ac yn rhoi gwerth mawr ar sicrhau cyfleoedd rheolaidd i'r plant chwarae allan yn yr awyr iach.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant rheolaidd i gefnogi eu harferion yn effeithiol, fel cyrsiau cymorth cyntaf, rheoli ymddygiad a diogelu plant.  Maent yn dilyn arferion hylendid da, gan sicrhau bod byrddau ac arwynebau'n lân a bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta.  Dilynant ganllawiau priodol sy'n cyd-fynd â'r cyngor diweddaraf ar reoli heintiau.  Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn dda ac mae asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Un o brif gryfderau'r lleoliad yw'r berthynas waith gadarnhaol sydd rhwng ymarferwyr â'r plant.  Mae hyn yn galluogi bron pob plentyn i ymgartrefu'n dda ac i fod yn barod i ddysgu.

Mae safon gadarn yr addysgu yn sicrhau bod y plant yn cyrraedd safonau da o'u mannau cychwyn.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn bwrpasol, yn rheoli ymddygiad plant yn sensitif, yn ymyrryd yn fedrus ac yn holi cwestiynau yn bwrpasol wrth i'r plant ddysgu a chwarae.  Mae'r modd mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau annibynnol i ddatblygu gallu'r plant i weithio heb gyfarwyddyd, ynghyd â hybu ymddygiad cymdeithasol da, yn gryfder.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth fuddiol am ddatblygiad plant a gofynion y cyfnod sylfaen.  Maent yn sicrhau bod cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a rhai a gyfarwyddir gan oedolion.  Mae'r ardal allanol yn estyniad naturiol o'r ystafell y tu mewn gyda'r plant yn cael dewis lle maent am fynd i ddysgu a darganfod drostynt eu hunain.  Mae'r arweinydd wedi llunio system gynllunio sy'n sicrhau ei bod yn bodloni anghenion plant ac yn cynnig profiadau ar draws yr holl feysydd dysgu.  Mae'r cynlluniau'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol plant gan

gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Mae'r cynllunio yn sicrhau ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n llwyddo i ennyn diddordeb llawer o blant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r holl ymarferwyr yn cyfrannu'n ddigonol i'r broses gynllunio yn ddigon rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion unigol yn dda iawn ac maent yn sefydlu gweithdrefnau defnyddiol i arsylwi'n ddyddiol ac asesu eu datblygiad. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r disgwyliadau ar gyfer pob maes dysgu yn datblygu'n gadarn ac maent yn defnyddio gwybodaeth asesu i nodi'r camau nesaf mewn dysgu ar gyfer plant unigol. Maent yn asesu'r plant wrth gychwyn yn y lleoliad ac wrth iddynt adael. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o gynnydd bob plentyn. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am sut mae eu plant yn symud ymlaen yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i blant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Maent yn modelu'r iaith yn naturiol a chyson drwy gydol y sesiynau ac yn annog y plant i ymateb a chyfathrebu yn y Gymraeg yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ddealltwriaeth a defnydd y plant o'r iaith. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o ymwelwyr a'r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant a dysgu am eu milltir sgwâr. Enghraifft dda o hyn oedd croesawu'r postmon lleol i siarad â'r plant am ei waith ac yn arbennig ei waith tros gyfnod y Nadolig yn dosbarthu anrhegion a chardiau.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau er mwyn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn ddigonol. Er enghraifft, maent yn codi ymwybyddiaeth plant sy'n llai ffodus yn llwyddiannus drwy godi arian i Blant Mewn Angen. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau eraill.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn llwyddo sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Maent yn rhoi sylw priodol i ddiogelwch yn y lleoliad, yn ystod ymweliadau a thrwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl blant yn derbyn gofal ac addysg effeithiol mewn adeilad sydd wedi ei gynllunio a'i osod i hyrwyddo'u hannibyniaeth yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn hollol gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hamser mewn amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol. Trwy arddangos a dathlu gwaith y plant ar waliau'r ystafell, mae arweinwyr yn creu ymdeimlad o falchder ac o berthyn i'r plant ac yn creu naws groesawgar i bawb sy'n ymweld.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r holl gyfarpar a'r adnoddau wrth gynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu diddorol i'r plant yn yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored, er enghraifft gan fod ymarferwyr yn ymateb yn dda i ddiddordebau'r plant trwy ludo rhifau o un i ddeg ar geir bach er mwyn datblygu eu medrau rhifedd. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i gyflwyno adnoddau sy'n cysylltu â'r thema yn fedrus. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cysylltu'r thema gyfredol o ddiwrnod crempog â gweithgareddau dyddiol y plant, gan gynnwys cymysgu'r cynhwysion, gwrando ar stori berthnasol a chwarae rôl yn y gegin a thu allan trwy esgus gwneud crempog.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar yn cefnogi datblygiad y plant o ran eu medrau a’u gwybodaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r gwahanol berlysiau sy'n tyfu y tu allan yn annog plant i adnabod gwahanol arogleuon. Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu eitemau naturiol, eitemau wedi’u hailgylchu ac eitemau cartref i ymestyn dysgu’r plant ac sydd hefyd yn hybu ethos o gynaliadwyedd yn llwyddiannus. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl offer yn addas ar gyfer oedran y plant a bod cyfleusterau pwrpasol i hybu lles y plant yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw’r gornel dawel lle gall y plant gael man tawel a llonyddu, yn ôl y galw.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mewn deunaw mis, mae’r person â gofal wedi sefydlu gweledigaeth a chreu cymuned ofalgar, hapus. Mae wedi creu ethos cadarnhaol a chynhaliol ac mae’r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn awyddus i gymryd rhan a dysgu. Mae’r person â gofal wedi canolbwyntio’n llwyddiannus ar sefydlu tîm effeithiol sy’n darparu awyrgylch ddysgu ddiddorol i’r plant. Mae’n gwneud hyn drwy esiampl a gosod disgwyliadau uchel a chynorthwyo pawb i wneud eu gorau. Mae hyn yn cael effaith dda ar safonau a lles y plant yn ogystal â’r ddarpariaeth. Fodd bynnag nid yw’r unigolyn cyfrifol eto wedi rhannu cyfrifoldebau yn ddigon eang, er enghraifft o ran rhannu baich y cynllunio.

Yn dilyn cefnogaeth gan swyddog yr awdurdod lleol, mae’r person â gofal wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol i adnabod cryfderau’r lleoliad a’r meysydd sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae ganddi hi a’r unigolyn cyfrifol adnabyddiaeth dda o’r lleoliad. Mae’r cynllun datblygu yn cysylltu’n dda iawn â chanfyddiadau’r prosesau hunanwerthuso ac mae yna dargedau, ffin amser ac atebolrwydd clir. Drwy hyn, mae llawer o’r gweithgareddau ar gyfer y cynllun cyfredol wedi eu cyflawni ac yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Enghraifft nodedig o hyn yw cynnwys yr holl ymarferwyr yn y broses asesu a gosod y camau nesaf yn natblygiad y plant.

Mae gan y lleoliad ystod dda o ymarferwyr gyda chymwysterau priodol ar gyfer diwallu anghenion y plant. Mae rolau a chyfrifoldebau’r staff wedi'u diffinio'n glir ac mae’r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau’n llwyddiannus. Mae trefniadau ar gyfer gwerthuso eu perfformiad yn hynod gyson ac effeithiol gan sicrhau bod blaenoriaethau hyfforddiant yn derbyn sylw ac yn canolbwyntio ar gyfoethogi’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw ffeiliau pob ymarferydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn ateb gofynion cenedlaethol.

Mae’r ymarferwyr yn cael ystod werthfawr o hyfforddiant ac mae hyn yn dylanwadu’n gadarnhaol ar y ddarpariaeth wrth iddynt weithredu ar yr hyfforddiant a defnyddio’r adnoddau. Enghraifft benodol o hyn yw’r hyfforddiant a gafwyd i ennyn chwilfrydedd a chreadigrwydd plant a hybu cynaliadwyedd. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn defnyddio’r strategaethau hyn yn effeithiol wrth gyflwyno stori a gweithgaredd drwy gael y plant i ddyfalu beth sydd yn y fasged neu pwy yw helpwr y dydd trwy roi cliwiau iddynt ddyfalu. Mae hyn yn hybu medrau gwrando a chanolbwyntio’r plant yn effeithiol iawn.

Mae gan y lleoliad berthynas fuddiol â’r pwyllgor rheoli. Mae’r pwyllgor yn cwrdd bob hanner tymor ac yn derbyn gwybodaeth werthfawr am rediad a chynnydd y lleoliad. Rhennir canfyddiadau arfarniadau a blaenoriaethau’r cynllun datblygu gyda’r pwyllgor. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn ddoeth i gefnogi gosod blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Maent yn darparu adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu’r pant ac yn cyfoethogi eu profiadau.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu partneriaeth fuddiol â rhieni. Er enghraifft, mae arweinwyr yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am weithgareddau drwy wefan gymdeithasol a chânt gyfle bob tymor i ddod i gael trafod cynnydd y plant a sut i helpu gyda’r dysgu adref. Mae cysylltiadau gwerthfawr iawn â’r ysgol lle lleolir y lleoliad yn gryfder ac mae’r staff a’r plant yn elwa’n fawr o hyn. Enghreifftiau penodol o hyn yw’r cyfle gaiff yr arweinydd i arsylwi yn y dosbarth meithrin a’r cydweithio parod o ran cael defnyddio’r iard a’r ffrâm ddringo i ddatblygu medrau mentrus a chorfforol y plant. Mae’r person â gofal wedi ffurfio partneriaethau buddiol â busnesau lleol ac wedi llwyddo i sicrhau cryn nawdd ac adnoddau i’r lleoliad drwy hyn. Mae arweinwyr hefyd yn cydweithio’n effeithiol ag athrawes gefnogol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin ac yn ymateb yn dda i’r gefnogaeth a’r cyngor.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2020